AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSNES



Prentisiaethau
Apprenticeships

# CANLLAW
## I GYFLOGWYR AM BRENTISIAETHAU
### AMAETHYDDIAETH

# CROESO

**Mae'r cymwysterau hyn yn cynnig cyfle i ddysgwyr feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i arddangos cymhwysedd yn y gwaith ac i ddatblygu eu rhagolygon gyrfa. Maent yn gynhwysol ac yn addas i bob dysgwr.**

Mae timau asesu Cambria ar gyfer Busnes yn gweithio'n agos gyda chwmnïau, rheolwyr, adrannau ac unigolion i addasu asesiadau i gyd-fynd â gwaith penodol a swydd y gweithiwr.

## GOFYNION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER ARIANNU PRENTISIAETHAU

Cyn cofrestru ar gyfer prentisiaeth, cynhelir ymholiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer eich cwmni i gadarnhau fod polisïau statudol Iechyd a Diogelwch ar waith.

Byddwn yn monitro Iechyd a Diogelwch eich prentis yn rheolaidd trwy gydol y rhaglen hyfforddi. Bydd yr asesydd yn y gwaith yn cynnal adolygiad o'r hyfforddiant a'r lleoliad gwaith bob 61 diwrnod o leiaf. I gyfuno'r adolygiad gyda'r NVQ yn y gwaith, mae hyn yn aml yn cael ei gynnal yn fisol. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i gyflogwyr gynnig sylwadau a bod yn rhan o hyfforddiant eich dysgwr a gwirio ei gynnydd.

## GOSOD TARGEDAU NVQ/QCF

Yn ystod pob adolygiad prentis, bydd yr asesydd yn y gwaith yn cadarnhau targedau y cytunwyd arnynt gyda'r prentis ar gyfer beth y dylid ei gwblhau erbyn ei ymweliad nesaf. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r asesydd adolygu a rhoi adborth ar unrhyw waith asesu sydd wedi cael ei gyflwyno, a chynllunio rhagor o asesiadau ar gyfer y dyfodol.



## PA GYMWYSTERAU YN Y GWAITH FYDD YN ADDAS AR GYFER FY MHRENTIS?

Gwneir ymholiadau am natur y brentisiaeth ac, os oes angen, cynhelir ymweliad â'r safle er mwyn deall y gwaith mae'r prentis yn ei wneud.

Dylid dewis cymwysterau a llwybrau a fydd yn cyd-fynd â'r gofynion prentisiaeth ac sy'n adlewyrchu gwaith y dysgwr yn gywir fel ei fod yn gallu dangos ei gymhwysedd.

## A ALL FY MHRENTIS WNEUD RHAGOR O HYFFORDDIANT YN YSTOD EI BRENTISIAETH?

Wrth gwrs, ond rydym yn cynghori fod yr hyfforddiant yn gymesur fel bod y prentis yn gallu cwblhau gofynion y brentisiaeth bresennol.

## BETH YW PRENTIS DA?

Unigolyn sy'n llawn cymhelliant, yn ymroddedig, yn gweithio'n galed, ac yn barod i ddysgu.

## CYMORTH GAN Y DARPARWR HYFFORDDIANT

Bydd prentisiaid yn cael cymorth parhaus gan staff y coleg, gydag arweiniad un i un penodol a chymorth gan eu Hasesydd yn y Gwaith.

## PA GYMORTH SYDD ANGEN I MI EI ROI I FY MHRENTIS?

Mae angen i brentisiaid gael anogaeth a chyfranogiad gan eu cyflogwr drwy gydol y broses hyfforddi ac adolygu. Bydd hyn yn sicrhau fod y prentis yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd gwahanol gyda chydweithwyr gwahanol i ehangu ei brofiad dysgu ymhellach. Bydd y berthynas hon gyda phob parti yn cynorthwyo'r prentis mewn llwybr gyrfa strwythuredig.

Mae'n bwysig bod eich prentis yn cael amser a chymorth i fodloni terfynau amser yr hyfforddiant, ei fod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau sy'n effeithio ar ei waith a'i hyfforddiant, ac yn cael ei annog yn gyffredinol i gymryd rhan ym mhob agwedd ar ei fywyd gwaith. Mae hefyd yn bwysig fod cyflogwyr yn rhoi cyfle i'r prentis wneud mathau priodol o dasgau yn y gweithle, fel y gall unigolyn ddatblygu ei sgiliau a bodloni'r gofynion cymhwyster cymhwysedd yn y gweithle.

# PA GYRSIAU RYDYM YN EU CYNNIG MEWN AMAETHYDDIAETH YN Y GWAITH?

## Prentisiaeth Diploma Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth yn y Gwaith

Gallwch ddewis o'r llwybrau canlynol:

- Cynhyrchu Cnydau
- Cynhyrchu Da Byw
- Cynhyrchu Dofednod
- Ffermio Cymysg

## Prentisiaeth Diploma Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth yn y Gwaith

Gallwch ddewis o'r llwybrau canlynol:

- Cynhyrchu Cnydau
- Cynhyrchu Da Byw
- Cynhyrchu Dofednod
- Ffermio Cymysg

## Mae pob prentisiaeth yn cynnwys:

- Asesiadau Cychwynnol a Diagnostig
- Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

**Sgiliau Hanfodol mewn:**

- Cymhwyso Rhif
- Cyfathrebu

## Rydym hefyd yn cynnig y cymwysterau canlynol nad ydynt yn brentisiaethau:

- Diploma Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth yn y Gwaith - llwybrau amrywiol
- Diploma Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth yn y Gwaith - llwybrau amrywiol

Efallai bod gennych ddiddordeb mewn cyrsiau Gofal Anifeiliaid, Ceffyleg neu Arddwriaeth hefyd. Cysylltwch â ni am ragor o fanylion.



**Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gweld cwrs yma sy'n addas ar gyfer anghenion eich sefydliad - efallai y gallwn addasu'r hyfforddiant i ddiwallu eich anghenion penodol chi.**

**WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSNES**
**0300 30 30 006**